Wales Office
Swyddfa Cymru

**Guto Bebb AS**
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru

Gwydyr House
London, SW1A 2NP

Tŷ Gwydyr
Llundain, SW1A 2NP

1 Caspian Point
Cardiff Bay, CF10 4DQ

1 Pwynt Caspian
Bae Caerdydd, CF10 4DQ

www.walesoffice.gov.uk

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

Cyf: 48PUSSC 16

4 Awst 2016

Anwyl Meri Huws

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf at yr Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â Mesur Cymru ac am gyfarfod â mi yn y Sioe Frenhinol.

Mae Mesur Cymru yn cyflwyno model newydd o ddatganoli Cymreig sy'n cadw pwerau, a hynny er mwyn rhoi llinellau cyfrifoldeb clir, datganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru, a darparu ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n fwy atebol.

Mae'r Mesur yn tynnu ffin glir rhwng yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn sydd wedi'i gadw. I wneud hyn, mae'n sefydlu egwyddor syml, sef bod cyrff cyhoeddus sy'n atebol i Weinidogion Cymru neu'r Cynulliad yn rhai sydd wedi'u datganoli a bod cyrff cyhoeddus sy'n atebol i Weinidogion y D.U. neu'r Senedd yn rhai sydd wedi'u cadw.

Mae'r Mesur yn rhestru cyrff datganoledig fel "Awdurdodau Cyhoeddus Cymru" yn Atodlen 9A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a fewnosodwyd gan Atodlen 4 i'r Mesur. Bydd y Cynulliad yn gallu deddfu o fewn ei gymhwysedd mewn perthynas â'r awdurdodau hyn yn yr un modd ag y mae'n gwneud nawr. Awdurdodau wedi'u cadw yw awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn Awdurdodau Cyhoeddus Cymru. Bydd y Cynulliad yn gallu deddfu mewn perthynas ag awdurdodau o'r fath gyda chydsyniad Gweinidogion y D.U.

Mae Atodlen 2 i'r drafft Mesur yn nodi'r cyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r cyfyngiadau hyn yn tanategu'r nod trosfwaol o wahanu'n glir rhwng pwerau sydd wedi'u datganoli a phwerau sydd wedi'u cadw. Ystyr paragraff 8 yw bod y Cynulliad yn gallu gosod neu orfodi swyddogaethau ar Weinidogion y Goron, adrannau'r llywodraeth neu awdurdodau wedi'u cadw, gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol priodol.

Credaf fod cael ffin ddatganoli glir yn hanfodol er mwyn i ddatganoli Cymreig weithredu'n effeithiol a bod yr anghytuno ynghylch pwerau, sef rhywbeth sydd wedi nodweddu datganoli Cymreig, yn cael ei adael yn y gorffennol. Nid yw hi ond yn iawn felly y dylai Gweinidogion y D.U., sydd yn y pen draw yn gyfrifol am awdurdod cyhoeddus, allu cytuno y gall y Cynulliad osod swyddogaethau ar yr awdurdod hwnnw.

Dyma droi at rai o'r pwyntiau penodol yn eich llythyr:

- Nid yw'r darpariaethau sydd yn y Mesur yn rhai ôl-weithredol. Ni fyddai cychwyn y model cadw pwerau yn effeithio ar weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

- Yn ogystal â'r cyfyngiadau cyffredinol a nodir ym Mharagraff 8 o Atodlen 7B, mae Paragraff 11(b) yn rhestru nifer fechan o swyddogaethau Gweinidog y Goron y mae modd eu harfer mewn meysydd datganoledig ac y bydd y Cynulliad yn parhau i fod angen cydsyniad Gweinidogion y D.U. i'w haddasu. Dyma swyddogaethau sydd naill ai'n cael eu rhannu neu sy'n fuddiannau polisi pwysig i Lywodraeth y D.U., a phryd rydym yn ystyried ei bod yn bwysig fod Gweinidogion y D.U. yn cytuno ar unrhyw addasiadau a wneir iddynt mewn Mesur Cynulliad. Mae cynnwys swyddogaethau Cymraeg yn y rhestr yn golygu, fel nawr, y bydd angen o hyd am gydsyniad Gweinidogion y D.U. ar gyfer swyddogaethau neu safonau Cymraeg a roddir i Weinidog y Goron .

- Mae'r Llywodraeth yn bwriadu datganoli'r rhan fwyaf o weddill y swyddogaethau "cyn cychwyn" drwy Orchymyn, a rhestru'r swyddogaethau hynny y bydd modd eu harfer ar yr un pryd neu ar y cyd gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y Goron mewn Atodlen 3A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (a fewnosodir gan Atodlen 3 i'r Mesur). Ein nod yw ei gwneud yn glir sut y caiff pob swyddogaeth cyn cychwyn ei harfer yn y dyfodol. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Gweinidog priodol y D.U. os yw un o Ddeddfau'r Cynulliad yn ceisio addasu neu ddileu un o swyddogaethau Gweinidog y Goron nad yw wedi cael ei throsglwyddo neu nad yw wedi'i rhestru yn y Mesur.

Yng Nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi, fe wnaethom ni ymrwymo i sicrhau bod modd llenwi ffurflenni sy'n ymwneud â digwyddiadau pwysig bywyd a dyletswyddau sifil yn Gymraeg fel rhan o raglen ehangach i ddiwygio cofrestriadau sifil. Rydym wedi gweithio gyda'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, ac mae hi'n cydnabod yr angen i ddiwygio'r ddarpariaeth Gymraeg fel rhan o'r gwaith hwn. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud y newidiadau angenrheidiol, ac rydym yn aros am gyfle deddfwriaethol addas i wneud hynny. Mae'r rhaglen ddiwygio ehangach ar gyfer cofrestriadau'n golygu nad yw Mesur Cymru yn gyfrwng addas i wneud y newidiadau angenrheidiol.

Bydd Swyddfa Cymru yn parhau i weithio'n agos ag adrannau eraill i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal gan Lywodraeth y D.U. yng Nghymru. Yr wyf yn awyddus i gyfarfod â chi eto i drafod y materion hyn ymhellach cyn y Trydydd Darlleniad os yn bosibl.

**Guto Bebb AS**
**Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru**